



10.0 Marchnata a Chyfathrebu

Datblygu a Chynnal a Chadw Gwefannau

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Sut i Gael Sylw
3. Optimeiddio Peiriannau chwilio
4. Rheoli Cynnwys
5. Hygyrchedd
6. Mesur llwyddiant eich safle
7. Sut allwch chi ychwanegu gwerth go iawn?
8. Gwybodaeth Bellach

Cyflwyniad

Mae gwefan sy'n cael ei chynnal a chadw'n dda yn helpu i hyrwyddo'ch brand, eich gwaith a'ch cenhadaeth. Mae cynnal a chadw eich safle'n briodol yn helpu i sicrhau diogelwch y safle, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr newydd, yn hybu traffig sy'n dychwelyd a mwy. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r hyn y dylai mudiadau ei wneud i sicrhau bod eu gwefan yn perfformio'n dda a'i bod yn cael ei chynnal a chadw'n rheolaidd.



Llun: Cynllunio gosodiad gwefan

Sut i Gael Sylw

Dylai eich cynulleidfa bosibl allu dod o hyd i chi'n hawdd drwy Leolydd Adnoddau Unffurf (URL) sy'n gofiadwy ac yn hawdd ei ddyfalu.

Efallai y byddwch am brynu enwau parth perthnasol, e.e. [.org](#), [.org.uk](#), [.co.uk](#), neu amrywiadau ar enw, e.e. [mediatrust](#), [media-trust](#), [themediatrust](#).

Os na all eich cynulleidfa bosibl ddod o hyd i chi drwy eich URL am nad yw'n gwybod enw eich mudiad, bydd eich sylw i SEO ([Optimeiddio Peiriannau Chwilio](#)) yn hollbwysig.

Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO)

Beth yw SEO?

Ystyr SEO yw [Optimeiddio Peiriannau Chwilio](#), sef y broses o optimeiddio tudalennau a chynnwys gwefannau fel y gellir eu darganfod gan ddefnyddwyr sy'n chwilio am dermau sy'n berthnasol i'ch gwefan.

Traffig Organig

Pan fydd pobl sy'n chwilio am bethau yn teipio cwestiwn, gair neu linyrn o eiriau i mewn i chwilotwr, byddant yn cael set o ganlyniadau sy'n dangos yr hysbysebion a'r tudalennau sy'n gysylltiedig â'r ymholiad chwilio.

Traffig organig yw nifer yr ymwelwyr y mae eich safle'n eu denu, o bobl yn clicio ar eich tudalennau gwe pan fyddant yn ymddangos, i ganlyniadau chwilotwr.

Traffig chwilio organig yw'r hyn yr ydych yn anelu amdano yn eich gwefan. Rydych chi eisiau i ymwelydd fod yn chwilio am rywbeth penodol, ac os gallwch chi gynnig ateb, byddwch chi'n ennill tanysgrifiwr neu ymwelydd newydd â'ch gwefan.

Cyflwyno safle

Chwilotwyr yw'r ffynhonnell draffig fwyaf ar gyfer y rhan fwyaf o wefannau. Dyna pam mae'n bwysig sicrhau eu bod yn gallu dod o hyd i dudalennau eich gwefan a'u rhestru'n hawdd.

Ni fydd chwilotwyr o reidrwydd yn dod o hyd i chi'n awtomatig. Felly, dylech fynd ati i gofrestru eich safle gyda'r prif chwilotwyr, gan roi allweddeiriau wrth ddisgrifio eich safle i helpu i adnabod eich mudiad.

Google

Google yw'r chwilotwr mwyaf a mwyaf poblogaidd ar y blaned. Ar gyfer y rhan fwyaf o wefannau, fel arfer, Google yw'r ffynhonnell draffig fwyaf.

I gofrestru eich gwefan gyda Google, mae angen i chi gofrestru ar gyfer Google Search Console. Mae'n offeryn am ddim sy'n cael ei gynnig gan Google i helpu perchnogion gwefannau i weld sut mae eu gwefan yn perfformio mewn canlyniadau chwilio o ran ble mae'n ymddangos yn y rhestr. Mae Google yn cynnig canllaw cam wrth gam ar sut i gyflwyno eich gwefan [yma](#).

Bing

Gelwir consol chwilio Bing yn [Webmaster Tools](#). Mae'r rhyngwyneb yn darparu'r un swyddogaeth â Google Search Console ac yn eich galluogi i gyflwyno URLs i'w cynnwys ym mynegai Bing.

I gyflwyno eich gwefan i Bing, mae angen i chi gofrestru ar gyfer [Bing Webmaster Tools](#). Mae gan Bing ganllaw ar sut i gyflwyno eich gwefan a'ch tudalennau [yma](#). Mae mudiadau masnachol a fydd yn rheoli hyn ar eich rhan, ond gallant fod yn ddrud. Felly, mae llawer o gyflwynwyr yn gwneud hynny eu hunain. A dweud y gwir, mae defnyddio gwasanaeth awtomatig dim ond yn addas ar gyfer y lliaws o chwilotwyr 'llai'.

Safle Allweddair

Term sy'n cwmpasu unrhyw beth y byddwch yn chwilio amdano ar chwilotwr yw allweddair. Mae un gair neu ymadrodd yn 'allweddair' os yw'n arwain at dudalen canlyniadau ar Google neu unrhyw chwilotwr arall. Er mwyn cael gwell safle mewn chwiliad, bydd angen optimeiddio eich gwefan a'i chynnwys i'w gosod ar frig canlyniadau chwilotwyr ar gyfer allweddeiriau penodol ac allweddeiriau cynffon hir.

Ffordd syml o olrhain eich safle Google ar gyfer allweddeiriau sy'n gysylltiedig â'ch busnes neu gynhyrchion yw chwilio yn Google. Bydd y canlyniadau'n dangos safle eich gwefan ar gyfer yr allweddeiriau cystadleuol dan sylw. Y nod yn y pen draw yw i'ch gwefan fod ar frig chwiliad Google.

Bydd angen i'ch allweddeiriau fod yn berthnasol i'r hyn y mae pobl yn chwilio amdanynt, fel bod ganddynt well siawns o ddod o hyd i'ch cynnwys ymhlith y canlyniadau. Nid yw hyn o reidrwydd mor amlwg ag y byddech yn ei feddwl. Ceisiwch gael rhywun rydych chi'n ei adnabod, ond nad yw'n

gweithio yn eich maes, i rannu rhai geiriau gyda chi hefyd. Mae nifer o ffyrdd o ddod o hyd i allweddeiriau perthnasol, ond y dull hawsaf yw defnyddio offeryn ymchwil allweddair.

Sut mae defnyddio allweddeiriau?

Nawr eich bod wedi dod o hyd i'r allweddeiriau gorau, mae angen i chi eu rhoi ar waith i gael canlyniadau SEO. Mae rhai rheolau defnyddio allweddair sylfaenol y dylech eu dilyn i ddechrau arni.

Pan fyddwch chi'n cofrestru eich gwefan gyda'r chwilotwr, bydd yn rhaid i chi ddarparu allweddeiriau yn y disgrifiad o'r wefan.

Dylech hefyd fod wedi defnyddio allweddeiriau unigryw ar bob tudalen o'ch safle yn y meysydd y mae botiau a phobl fel arfer yn edrych arnynt er mwyn ceisio eu sicrhau bod yr hyn y maen nhw'n chwilio amdano gennych chi.

Dylech ystyried defnyddio'r canlynol:

- Allweddair yn **nheitl** y dudalen.
- Allweddair yn yr **URL** (e.e. online-petstore.com/parakeets/snacks/gourmet).
- Allweddair, ac amrywiadau ohono (e.e. "Elusen o Gymru") drwy gydol **copi'r dudalen**.
- Allweddair yn y **tagiau meta**, yn enwedig y meta ddisgrifiad.
- Allweddair mewn unrhyw **lwybrau ffeil at luniau** ac yn nhestun alt y lluniau.
- Allweddair fel y **testun angor** mewn dolenni yn ôl i'r dudalen o fannau eraill ar y safle.



Diffiniad

Botiau: Cymhwysiad meddalwedd sy'n rhedeg tasgau awtomatig dros y Rhyngrwyd

Tagiau meta

Mae tagiau meta yn dagiau anweledig sy'n cyflwyno data am eich tudalen i chwilotwyr ac ymwelwyr â'r wefan. Maen nhw'n cynnwys allweddeiriau a disgrifiadau o gynnwys tudalen. Mae chwilotwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i raddio safleoedd. Yn nyddiau cynnar y rhyngrwyd roeddent yn hollbwysig; bellach nid yw rhai chwilotwyr yn eu defnyddio.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi allweddeiriau perthnasol ar gyfer pob tudalen ar eich gwefan o hyd, ac ychwanegu tag disgrifiad cryno.

Strategaeth dolenni

Dolenni mewnol, a elwir hefyd yn ôl-ddolenni neu'n ddolenni allanol, yw hyperddolenni HTML o un wefan i'r llall. Mae nifer y dolenni i'ch safle yn arbennig o bwysig i beiriannau 'poblogrwydd', fel Google a chwilotwyr eraill.

Mae chwilotwyr mawr yn cyfrif nifer y dolenni gweladwy a dwyochrog i'ch safle fel mesur o'i 'boblogrwydd' ac yn addasu ei safle yn unol â hynny. Mae datblygu strategaeth dolenni yn hanfodol er mwyn sicrhau safle uwch. Ystyriwch gysylltu â safleoedd perthnasol, ond byddwch yn greadigol. Dychwelwch y ffafr drwy ychwanegu eu dolen i'ch safle.

Rheoli Cynnwys

Y rheol euraid yw rhoi cymaint â phosibl o wybodaeth ar eich gwefan gan gadw pob adran yn ddigon byr a syml i allu bwrw llygad cyflym drostynt.

Canllaw cyflym i reoli eich safle

- Lluniwch amserlen gynnwys fisol a blynyddol
- Nodwch dasgau a chyfrifoldebau allweddol
- Ysgrifennwch, dyluniwch a chrëwch gynnwys newydd
- Lluniwch ganllawiau sicrhau ansawdd (gweler isod)
- Sefydlwch broses gymeradwyo

Cynllunio amserlen gynnwys

Nodwch gynnwys 'deinamig' - hynny yw, deunydd y mae angen ei ddiweddarau'n rheolaidd. Meddyliwch am feysydd cynnwys y gallech eu defnyddio:

- Micro-gynnwys - penawdau byr a dolenni
- Newyddion - cofiwch gysylltu â thudalennau perthnasol eraill eich safle
- Digwyddiadau a hyfforddiant
- Ymgyrchoedd

Cynnwys 'statig' yw'r hyn y mae angen ei ddiweddarau yn ôl yr angen yn unig, megis adrannau 'Amdanom ni' neu 'Cysylltu â ni'.

Ei wneud yn ddarllenadwy

Pan fyddwch yn ysgrifennu, yn dylunio ac yn creu cynnwys, mae'n bwysig cofio bod defnyddwyr yn darllen tua 20-28% o'r testun ar dudalen we. Rhannwch y testun gan ddefnyddio is-benawdau a thestun trwm - mae'r ddwy elfen hyn yn gwneud y testun yn haws ei ddarllen. Gwnewch yn siŵr bod cynnwys newydd yn cysylltu â hen gynnwys ac i'r gwrthwyneb. Cadwch y gosodiad yr un peth gan ddefnyddio templedi.



Llun: Creu cynnwys i wefan

Mae symleiddio'r hyn rydych chi am ei ddweud yn anodd! Mae offer ar gael ar-lein i'ch helpu i ddod o hyd i iaith a fydd yn fwy hygyrch i bawb, fel [ap Hemingway](#). Mae hyn yn dadansoddi testun o ran lefel ei anhawster ac yna'n amlygu'n ddefnyddiol yr hyn y gallech ei newid neu ei symleiddio.

Mae'r sgôr yn dweud wrthyfch pa mor hawdd yw eich cynnwys i'w ddarllen (y sgôr isaf yw'r gorau), ac mae'r lliwiau'n dangos brawddegau sy'n anodd a geiriau y dylech ystyried eu newid.

Hygyrchedd

Efallai y bydd gan bob un o'ch defnyddwyr anghenion hygyrchedd ar un adeg yn eu bywyd. Bydd dylunio cynnwys mewn ffordd sy'n eu helpu i gael gafael arno yn sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio

Mae Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCS) wedi nodi'r enghreifftiau canlynol:

Gallu	Parhaol	Dros dro	Sefyllfaol
Golwg	Amrantiad	Cataractau	Llid yn y llygaid
Clyw	Nam ar y clyw	Haint yn y glust	Mewn caffi swllyd
Motor	Clefyd Parkinson	Braich mewn plastr	Ar drên sy'n symud
Gwybyddol	Problemau gyda'r cof	Sgil-ffeithiau meddyginiaeth	Sefyllfaoedd llawn straen

Sicrhau hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf

Dylech sicrhau bod eich cynnwys yn hygyrch o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn golygu bod angen i chi ddechrau meddwl sut y gallai defnyddwyr gael mynediad at eich gwasanaeth a'i ddefnyddio cyn dylunio neu adeiladu unrhyw beth.

Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er nad oes yn rhaid cyfieithu pob gweithgaredd yn ei union gyd-destun, dylid anelu at gydbwysedd cyfartal o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith yn agored i'r gweithgarwch.

Rheoli gwefannau

Mae rheoli gwefannau yn cynnwys llawer o weithgareddau gan gynnwys diweddarau meddalwedd, gwneud copi wrth gefn o ddata, cynnal gwefannau a diweddarau cynnwys. Gallai hefyd gynnwys gwaith SEO, datblygu meddalwedd, datblygu cynnwys, dadansoddi ymwelwyr a llawer mwy.

Gall gwefan fod yn ased gwerthfawr i fusnes neu mudiad, a gallai diffyg gwaith cynnal a chadw arwain at golli'r safle.

Gan mai gwefan yn aml yw'r lle cyntaf i rywun edrych pan fydd angen gwybodaeth arno am fudiad, mae cynnal a chadw'r safle yn bwysig iawn.

Diogelu Gwefan

Diogelwch yw'r prif reswm pam y mae cynnal a chadw gwefan mor bwysig. Os yw eich mudiad yn defnyddio System Rheoli Cynnwys (CMS) fel Drupal neu WordPress, byddwch chi eisiau sicrhau bod gan eich safle'r patsys meddalwedd a'r diweddariadau diogelwch diweddaraf. Os na fydd gennych chi'r rhain, byddwch chi'n darged hawdd i hacwyr darfu ar eich safle neu ddwyn data gwerthfawr.

Cynnal a chadw eich safle

Mae defnyddwyr yn disgwyl gwybodaeth newydd a'r wybodaeth ddiweddaraf bob tro y byddant yn ymweld â'ch gwefan. Nid ydynt yn poeni am eich problemau adnoddau. Maen nhw'n disgwyl i bopeth weithio: dim dolenni wedi torri, dim lluniau coll, a dim camgymeriadau teipio.

Rydych am iddynt adael y safle wedi cael profiad cadarnhaol, felly mae angen lefel o adnoddau pwrpasol arnoch. Wrth gwrs, mae i ba raddau y gallwch sicrhau hyn yn dibynnu ar faint eich mudiad a'r adnoddau sydd ar gael i chi.

Rhestr wirio ar gyfer sicrhau ansawdd

- Nid yw defnyddwyr eisiau gweld camgymeriadau sillafu na dolenni wedi torri
- Gofynnwch i rywun arall wirio eich gwaith yn drylwyr
- Peidiwch â gadael i waith 'heb ei wirio' fynd yn fyw
- Gosodwch ganllaw arddull golygyddol yn yr un modd ag y byddech yn ei wneud ar gyfer deunyddiau printiedig

Ond bydd problemau'n codi...

- Wrth i gynnwys dyfu, mae materion llywio'n codi ac efallai y bydd angen i chi gyflwyno cyfleuster chwilio. Gall y broses o labelu botymau fod yn anghywir neu'n amhriodol a bydd angen ei hadolygu
- Gall lefelau hierarchaeth fynd yn annigonol
- Gall rhai ardaloedd ddod yn fwy poblogaidd nag eraill
- Gall hen ddolenni gael eu torri
- Gall gwybodaeth ddiflannu neu fod yn gamarweiniol

Mewn geiriau eraill, mae angen i chi fonitro eich gwefan yn gyson, gan groesgyfeirio'r gwahanol adrannau pan gaiff cynnwys newydd ei ychwanegu. Dylai gwefannau fod yn ddeinamig ac yn hyblyg. Ni fydd gwefan statig yn cael ymweliadau rheolaidd nac yn cadw diddordeb.

Mesur llwyddiant eich safle

Pam mae monitro gwefan yn bwysig?

Mae monitro gwefannau wedi dod yn fwyfwy hanfodol i fudiadau a defnyddwyr sy'n dibynnu'n drwm ar y rhyngwyd at ddibenion gwaith neu bleser, ac mae'r angen i fonitro gwefannau wedi dod yn bwysicach fyth. Gyda dulliau monitro priodol, gall cwmnïau fod yn sicr bod eu gwefan nid yn unig ar waith ond ei bod hefyd yn perfformio yn y ffordd orau bosibl.

Ystadegau'r we

Mae safleoedd llwyddiannus yn defnyddio 'dadansoddiad ffeiliau log' i olrhain effeithiolrwydd safleoedd. Caiff hyn ei wneud gan ddefnyddio ffeil ar y gweinydd gwe sy'n cadw golwg ar bob cais am ffeil a wneir gan ddefnyddwyr. Defnyddir dadansoddiad o'r data hwn i olrhain defnydd o'r safle. Gall eich datblygwr gwe ychwanegu cod Google Analytics am ddim i'ch gwefan i roi cyfoeth o ystadegau perthnasol a hygyrch i chi.

Google Analytics

Mae Google Analytics yn offeryn olrhain am ddim a gynigir gan Google, ac mae'n dangos i chi sut mae ymwelwyr yn defnyddio eich gwefan.

Drwy ychwanegu darn bach o god at eich gwefan ([neu'n symlach fyth, gosod ategyn ar safle WordPress](#)), gallwch fonitro sut mae ymwelwyr yn rhyngweithio â'ch tudalennau gwe. Bydd Analytics yn dweud wrthy'ch faint o ymwelwyr a gawsoch, pa dudalennau yr ymwelwyd â nhw, am ba hyd yr oeddent yn aros ar-lein, a llawer mwy.

Mae Google Analytics yn darparu gwybodaeth am ymddygiad defnyddwyr ac yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr a all eich helpu i lunio strategaeth llwyddiant eich mudiad. Cyn i chi ddechrau defnyddio Google Analytics, bydd angen i chi [greu cyfrif Google](#). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gael cyfeiriad e-bost a chyfrinair Cyfrif Google cofrestredig.

Os ydych chi'n newydd i Google Analytics, yna mae Google Skillshop yn cynnig amrywiaeth o [gyrsiau am ddim](#) a fydd yn eich helpu i ddysgu am offer mesur Google.

Ymwelwyr â'ch Tudalen ac Argraffiadau

Mae Ymwelwyr â'ch Tudalen yn amod sy'n dangos sawl gwaith y mae tudalen benodol yn cael ei gweld tra bod argraffiadau'n nodi faint o weithiau yr edrychir ar elfen ar dudalen we.

Ymwelwyr â'ch Tudalen

Pan fydd defnyddiwr yn ymweld â thudalen o'r wefan, mae'n cyfrif fel un ymweliad, a bydd gan bob ymwelydd sy'n ymweld â'r wefan o leiaf un ymweliad â'r dudalen. Os bydd yr un ymwelydd yn clicio ar dudalen arall ac yn dod i chwilio, bydd hefyd yn cael ei gyfrif fel ymweliad â'r dudalen.

Argraffiadau

Argraffiadau yw'r nifer o weithiau y mae defnyddiwr yn edrych ar elfen benodol o dudalen, boed hynny'n llun, testun, fideo neu gynnwys.

Mae ymweliadau â thudalen ac argraffiadau yn bwysig, ac maen nhw'n hawdd eu cyfrif i weld llwyddiant gwefan. Pan fydd nifer yr ymweliadau â thudalen yn mynd yn isel, yna mae'n sicr yn dangos problem fel dyluniad gwefan gwael, galwad i weithredu, cynnwys o ansawdd isel neu broses optimeiddio chwilotwyr wael.

Taith Defnyddiwr

Teithiau defnyddwyr yw'r daith gam wrth gam y mae defnyddiwr yn ei chymryd i gyrraedd ei nod. Bydd y daith hon yn aml yn cynnwys nifer o dudalennau gwefan a phwyntiau penderfynu sy'n cario'r defnyddiwr o un cam i'r llall.

Y cam cyntaf yn nhaith y defnyddiwr yw eich tudalen lanio. Efallai y bydd gennych fwy nag un dudalen lanio ar eich safle hefyd.

Er enghraifft, os yw eich dadansoddeg yn dangos bod y rhan fwyaf o draffig eich chwilotwr yn sgil darn penodol o gynnwys, defnyddiwch y cynnwys fel rhan o'ch tudalen lanio a chynnwys Galwad i Weithredu (CTA) ar ddiwedd yr erthygl.

Cymharu Ymwelwyr Newydd ag Ymwelwyr sy'n Dychwelyd

Ymwelwyr newydd yw pobl sy'n dod i'ch safle am y tro cyntaf ar ddyfais.

Ymwelwyr sy'n dychwelyd yw pobl sydd wedi ymweld â'ch safle o'r blaen. Maen nhw'n tueddu i ymgysylltu mwy — maen nhw'n symud yn ôl ac ymlaen llai, yn gweld mwy o dudalennau fesul sesiwn, ac yn cael mwy o sesiynau.

Gall cymhareb yr ymwelwyr newydd i ymwelwyr sy'n dychwelyd fod yn drawiadol iawn, gan ddangos effeithiolrwydd eich technegau marchnata digidol mewnol ar draws y we.

Sut allwch chi ychwanegu gwerth go iawn?

Ceisiwch wella cyfran yr ymwelwyr newydd a'r ymwelwyr sy'n dychwelyd. Ymwelwyr rheolaidd yw'r rhai mwyaf gwerthfawr - os yw pobl yn dychwelyd, rhaid eu bod wedi cael rhywbeth defnyddiol ar eich safle. Fodd bynnag, gall eich ystadegau gael eu hamharu gan rywun sy'n dychwelyd llawer o weithiau.

Edrychwch ar bwyntiau 'gollwng' - tudalennau problemus lle mae pobl yn gadael y safle. Er enghraifft, gall dadansoddiad Google ddangos bod y dudalen rhoddion yn achosi i bobl adael. Ystyriwch greu 'teithiau defnyddwyr' os yw eich dadansoddiad yn dangos bod dilyniannau poblogaidd o dudalennau'n cael eu defnyddio. Gellir pennu'r rhain yn ôl hyd cyfartalog yr ymweliad a nifer y tudalennau fesul ymweliad.

Mae dadansoddi'r data yn arwain at argymhellion:

- Ardaloedd i'w hail-ddylunio - tudalennau problemus
- Ardaloedd i ganolbwyntio arnynt - cynnwys llwyddiannus
- Ardaloedd i gael gwared arnynt - cynnwys aflwyddiannus

Gwybodaeth Bellach

Hwb TGCh (Saesneg yn unig)

ICT Hub

<https://www.ict hub.org.uk/>

Adnoddau ar gyfer y Sector Gwirfoddol (Saesneg yn unig)

VolResource

www.volresource.org.uk

Sylfaen Wybodaeth TGCh (Saesneg yn unig)

ICT Knowledge Base

<http://www.ictknowledgebase.org.uk/>

Charity Digital (Saesneg yn unig)

Charity Digital

<https://charitydigital.org.uk/>



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.